HYSBYSIR drwy hyn bod Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu gwneud GORCHYMYN CYNGOR SIR CEREDIGION (LLEFYDD PARCIO ODDI AR Y STRYD) 2025.

Effaith y Gorchymyn hwn fydd:

a) Dirymu Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2012; Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2012 (Gorchymyn Diwygio 1) 2014; a Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2012 (Gorchymyn Diwygio 2) 2017.

b) Ailgyflwyno darpariaethau'r Gorchmynion uchod ac eithrio fel a ganlyn:
    1. Newid dyddiau ac oriau codi tâl y meysydd parcio canlynol – Ffordd yr Eglwys a Stryd y Cware, Ceinewydd; Traeth y De, Aberaeron a Promenâd Newydd, Aberystwyth – o 1 Mawrth – 31 Hydref, 8am – 10pm i Bob Dydd, 8am – 6pm.
    2. Newid dynodiad Maes Parcio Pendre, Aberteifi o Faes Parcio Deiliad Trwydded yn Unig i Faes Parcio Arhosiad Byr, Pob Dydd, 8am- 6pm, uchafswm arhosiad 2 awr.
    3. Newid dynodiad Maes Parcio Rhes Gloster / Red Lion, Aberteifi o Faes Parcio Talu ac Arddangos i Faes Parcio Deiliad Trwydded yn Unig.
    4. Wedi'i esemptio rhag talu taliadau mewn Meysydd Parcio Arhosiad Hir ac Arhosiad Byr Gerbyd sy'n arddangos Bathodyn dilys Person Anabl ar yr amod bod y Cerbyd hwnnw ar adeg ei barcio naill ai'n cael ei yrru neu'n cael ei feddiannu fel teithiwr gan ddeiliad Bathodyn y Person Anabl.
    5. Cyflwyno darpariaethau sy'n ymwneud â defnyddio Cilfachau Gwefru Cerbydau Trydan a Mannau cysylltiedig Gwefru Cerbydau Trydan.
    6. Newid maint Maes Parcio Maesyrafon, Aberystwyth i gynnwys yr estyniad newydd arfaethedig i'r maes parcio hwn.
    7. Cyflwyno Atodlenni diwygiedig Taliadau.
    8. Diweddaru darpariaethau sy'n ymwneud â dulliau talu'r taliadau ar gyfer defnyddio Llefydd Parcio Arhosiad Hir a Byr.
    9. Diweddaru a mewnosod diffiniadau o dan Ran 2 – Dehongli.
    10. Diweddaru'r Atodlen o fapiau sy'n dynodi maint y Llefydd Parcio er mwyn:
        a) adlewyrchu data topograffig wedi'i ddiweddaru,
        b) cael gwared ar ddarnau o dir a werthwyd gan y Cyngor,
        c) cael gwared ar ddarnau o dir nad ydynt bellach yn cael eu lesio gan y Cyngor, a
        d) i gywiro hepgoriadau / gwallau ym maint y Llefydd Parcio presennol.
    11. Dileu darpariaethau nad ydynt bellach yn berthnasol.
    12. Diweddaru darpariaethau lle bo angen er mwyn cyd-fynd â newidiadau mewn deddfwriaeth.

Mae manylion llawn y cynigion hyn wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft y ceir eu harchwilio yn swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion ym Mhenmorfa, Aberaeron; Canolfan Alun R Edwards, Maes y Frenhines, Aberystwyth; Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Morgan, Aberteifi; a Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan, yn ystod oriau arferol swyddfeydd.

Gwrthwynebiadau, gan nodi’r rhesymau yn ysgrifenedig, at clic@ceredigion.gov.uk neu’r Gwasanaethau Cyfreithiol, trwy law Ystafell y Post, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE neu drwy'r ffurflen ar-lein a geir ar https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau, i'w cael erbyn 04/12/2024